



YSGOL I.D. HOOSON

11.02.21

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

A fydddech cystal a chymryd sylw o'r wybodaeth bwysig sydd ar y llythyr gan Brif Swyddog Addysg ac Ymyraeth Gynnar yr Awdurdod Lleol, Karen Evans sydd yn egluro'r sefyllfa o ran y plant yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl yr hanner tymor. Byddwn yn eich diweddarau o'r trefniadau dychwelyd yn ystod yr wythnos yn dilyn yr hanner tymor.

Ar ddydd Gwener, Chwefror 12fed, bydd yr ysgol yn cau am yr wythnos hanner tymor. Gan y bydd dydd Llun Chwefror 22ain yn ddiwrnod hyfforddiant, bydd sesiynau dysgu ar lein a threfniadau dysgu cyfunol yn parhau o ddydd Mawrth Chwefror y 23ain ymlaen.

Trefniadau casglu pecynau gwaith – Bydd cyfle i chi gasglu pecyn gwaith yn ystod yr wythnos yn dilyn yr hanner tymor. Gweler y trefniadau ar gyfer hyn yn yr amserlen isod. ***Os ydych yn dymuno casglu adnoddau, bydd angen i chi fod wedi cysylltu gyda'r athro/awes ddosbarth cyn canol dydd ar ddydd Gwener Chwefror 19eg*** er mwyn galluogi fod digon o amser i baratoi pecyn. Byddem yn gwerthfawrogi os fyddai pob ymdrech yn cael ei wneud i gasglu unrhyw becyn yr ydych wedi gofyn amdano, ac iddynt gael ei casglu ar yr amseroedd penodol ar gyfer y dosbarth. Mae cryn dipyn o waith paratoi ac adnoddau yn mynd i mewn i baratoi'r pecynau, ac felly byddem yn gwerthfawrogi fod pob pecyn ac adnoddau y gofynnir amdanynt yn cael ei casglu.

Bydd yr adnoddau a ofynnwyd amdanynt ar gael i'w casglu o focs fydd wedi ei leoli y tu allan i ddrws neuadd yr ysgol yn y dull arferol. Bydd y gwaith mewn ffolder, gydag enw eich plentyn ar y blaen.

Gofynnwn yn garedig i chi gadw at yr amserlen, gan wisgo mwgwd neu orchudd wrth ddod ar dir yr ysgol.

	Dyddiad / Date	Amser / Time
Mr D.Jones Bl.3&4 / Yr.3&4	23.2.21	10.30-11.00
Miss B Morris Bl.3&4 / Yr.3&4	23.2.21	11.15-11.45
Dosbarth/Class	23.2.21	12.00-12.30
Mr S. Owen Bl.5&6 / Yr.5&6	23.2.21	12.45-1.15
Mrs M.Williams Bl.5&6 / Yr.5&6	23.2.21	1.30-2.00
Miss E. Evans Bl.5&6 / Yr.5&6	23.2.21	2.15-2.45
Miss M.Davies Bl.1&2 / Yr.1&2	24.2.21	9.00-9.30
Miss D.Dempsey Bl.1&2 / Yr.1&2	24.2.21	11.15-11.45
Miss E. Richards Bl.1&2 / Yr.1&2	24.2.21	12.00-12.30
Miss A.Morris Nursery / Reception	24.2.21	12.45-1.15
Miss Z Williams Reception/Derbyn	24.2.21	1.30-2.00

PWYSIG - Unwaith y mae'r adnoddau wedi ei casglu, dylid ymadael a safle'r ysgol yn syth os gwelwch yn dda, gan osgoi ymgynull ar safle'r ysgol i sgwrsio. Mae'r amserlen ar gyfer casglu yn gymharol dyn, ac felly mae ymadael a safle'r ysgol yn brydol yn hwyluso trefniadau ieuchyd a diogelwch i bawb wrth i rieni gyrraedd ac ymadael safle'r ysgol. Diolch.

Cyfeiriad e-byst ar gyfer staff dysgu:

Miss Amy Morris MorrisA21@hwbcymru.net

Miss Laura Lewis LewisL109@hwbcymru.net
Miss Zoe Williams

Miss Manon Davies DaviesM125@hwbcymru.net

Miss Esther Richards RichardsE305@hwbcymru.net

Miss Delyth Dempsey	DempseyD1@hwbcymru.net
Miss Catrin Darlington	DarlingtonC7@hwbcymru.net
Miss Bethan Morris	MorrisB27@hwbcymru.net
Mr Dyfan Jones	JonesD106@hwbcymru.net
Mrs Manon Williams	WilliamsM1666@hwbcymru.net
Miss Eiliw Evans	EvansE42@hwbcymru.net
Mr Sion Owen	OwenS19@hwbcymru.net

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i'ch hysbysu o unrhyw wybodaeth bwysig y byddwn yn ei dderbyn cyn gynted ag y bydd yn bosib.

Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gofio cysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel gan gymryd gofal gyda'ch teuluoedd dros yr wythnos hanner tymor.

Yn ddiffuant,

Rhodri Jones
Pennaeth